Adroddiad ar

# Ysgol Heol Goffa

Heol Goffa
Llanelli
Sir Gaerfyrddin
SA15 3LS

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Heol Goffa

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Heol Goffa |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori’r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Arbennig a gynhelir |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 127 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 105 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 0 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 45.8%) | 48.5% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector ysgolion arbennig a gynhelir yw 100.0%) | 100.0% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | * |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2020 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/03/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/11/2025 |

## Mwy o wybodaeth

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol ddydd arbennig awdurdod lleol sydd wedi'i lleoli yn Llanelli ac yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin. Mae'r ysgol yn darparu lleoliadau ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 19 oed ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n gorgyffwrdd.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion anawsterau dysgu difrifol, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt anghenion ychwanegol mewn lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae gan fwyafrif ohonynt anawsterau dysgu dwys a lluosog hefyd neu anghenion corfforol a meddygol sylweddol. Mae llawer o ddisgyblion yn awtistig neu'n profi anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol, tra bod gan leiafrif ohonynt namau synhwyraidd. Mae gan ychydig iawn o ddisgyblion anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd.

Ar hyn o bryd, mae 127 o ddisgyblion ar y gofrestr, sef cynnydd o 64% ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gan bron bob un o'r disgyblion gynllun datblygu unigol, ac mae ychydig llai na hanner ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Daw ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion yng ngofal yr awdurdod lleol. Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion. Nod yr ysgol yw darparu profiadau dysgu dynamig, difyr a heriol, sy'n cynnig cyfleoedd i bob disgybl gyrraedd ei botensial unigol.

Yn dilyn cyfnod o ansicrwydd sylweddol, cyhoeddodd y Cyngor yng Ngorffennaf 2025 y byddai'n "mynd ar drywydd yr opsiwn" i greu ysgol newydd ar gyfer 150 o ddisgyblion i ddisodli Heol Goffa. "…Bydd yr ysgol newydd yn cynyddu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol [ADD] a'r rhai ag anawsterau dysgu dwys a lluosog [ADDLl]…" Cynigiwyd disodli Heol Goffa yn gyntaf yn 2017.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2017. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er 2020.

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae Ysgol Heol Goffa yn ysgol groesawgar lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae'r pennaeth a'r uwch arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth bwyllog a chyson, gan greu amgylchedd cadarnhaol a sefydlog ar gyfer disgyblion a staff. Mae gweledigaeth yr ysgol, sef "Mae pawb yn gallu – everybody can," yn glir mewn bywyd bob dydd.

Ceir perthnasoedd cryf iawn rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn deall anghenion disgyblion yn dda ac yn eu helpu i fagu hyder, rheoli eu hemosiynau a mwynhau dysgu. Mae gan ddisgyblion lais go iawn ym mywyd yr ysgol. Maent yn helpu gwneud penderfyniadau trwy bwyllgorau ysgol ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a chenedlaethol, sy'n magu eu hyder ac yn meithrin eu medrau arwain.

Mae'r addysgu yn bwyllog, yn bwrpasol ac yn drefnus. Mae staff yn defnyddio arferion clir, ciwiau gweledol a chyfathrebu cyflawn fel bod pob disgybl yn gallu cymryd rhan yn llawn. Mae gwersi'n cynnwys dysgu synhwyraidd, gweithgareddau yn yr awyr agored, tasgau creadigol a gwaith grŵp, sy'n helpu disgyblion i barhau i ymgysylltu a gwneud cynnydd cadarn. Mae gan gynorthwywyr addysgu ran bwysig mewn cefnogi dysgu disgyblion. Mae staff yn gwirio dealltwriaeth disgyblion yn aml ac yn rhoi adborth buddiol.

Mae disgyblion yn mwynhau ystod eang o brofiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth, fel dysgu yn yr awyr agored, prosiectau menter, tripiau preswyl a gweithgareddau chwaraeon. Mae'r rhain yn gryfderau arbennig yn yr ysgol. Maent yn helpu disgyblion i ddysgu am annibyniaeth, gwydnwch a medrau bywyd go iawn. Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â heriau corfforol fel gwobr Dug Caeredin neu sgïo.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a'r gymuned. Mae prosiectau gyda phobl hŷn, sesiynau cerddoriaeth ac ymweliadau adrodd storïau yn helpu disgyblion i feithrin empathi, cyfathrebu ac ymdeimlad o berthyn.

Mae diffyg nyrs ysgol ddynodedig yn effeithio ar lefel y cymorth meddygol parhaus sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion iechyd cymhleth. Mewn ysgolion tebyg, mae nyrs yn helpu cydlynu gofal a chymorth i deuluoedd. Byddai cael y rôl hon yn cynnig mwy o sicrwydd i rieni ac yn helpu disgyblion i gael cymorth meddygol cyson a chydlynus yn ystod y diwrnod ysgol.

Er gwaethaf rhai heriau, mae Ysgol Heol Goffa yn parhau i ddarparu amgylchedd gofalgar ac uchelgeisiol lle mae disgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd cryf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu’r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Mynd i’r afael â’r pryderon a nodwyd yn y llythyr diogelu

A2 Cryfhau systemau sicrhau ansawdd a darparu atebolrwydd cliriach ar draws rolau arwain

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

# Prif werthusiad

## Arweinyddiaeth gref a thosturiol sy'n cynnal sefydlogrwydd a diben ar y cyd

Mae arweinwyr yn Ysgol Heol Goffa yn darparu arweinyddiaeth sicr ac ymroddgar sydd wedi darparu sefydlogrwydd yn ystod cyfnod o ansicrwydd sylweddol ynglŷn â dyfodol yr ysgol. Mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad pwyllog a phwrpasol, wedi'i gefnogi'n gryf gan uwch arweinwyr. Gyda'i gilydd, maent wedi creu tîm staff hynod ymroddgar ac yn rhoi pwysigrwydd cyfartal i les disgyblion a staff, fel ei gilydd, sy'n sicrhau bod gofal, diogelwch a chymorth emosiynol yn ganolog i waith yr ysgol. Mae hyn yn cyfrannu at ddiwylliant ysgol cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu gwneud cynnydd pwrpasol.

Mae gweledigaeth yr ysgol, sef *"Mae pawb yn gallu / everybody can,"* yn ffurfio'i gwaith yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o gyfarfodydd arweinyddiaeth â ffocws da, dysgu proffesiynol o ansawdd uchel a rheoli perfformiad cadarn i sicrhau gwelliant parhaus. Mae staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi trwy gymryd rhan ystyrlon mewn hunanwerthuso, sy'n cynnal ymdeimlad ar y cyd o ddiben ac uchelgais.

Mae'r strwythur arweinyddiaeth yn cefnogi addysgu, dysgu, lles a gweithrediadau o ddydd i ddydd yn briodol. Fodd bynnag, mae dosbarthu cyfrifoldebau yn eang ar draws yr uwch dîm yn golygu nad yw atebolrwydd a goruchwylio systemau allweddol mor glir ag y gallent fod. Er hynny, mae arweinwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gynnal ysgol lle mae disgyblion yn hapus, yn mynychu'n dda ac yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u lles. Mae arweinwyr canol yn magu hyder wrth iddynt ddatblygu eu rolau o fewn y strwythur hwn.

Mae llywodraethwyr yn darparu cymorth a her effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol, ei meysydd i'w datblygu a chyfyngiadau ariannol. Fodd bynnag, caiff eu gallu i ddylanwadu ar strategaeth ariannol tymor hwy ei chyfyngu gan ddyraniadau cyllid anrhagweladwy a chadarnhau niferoedd disgyblion yn hwyr. Mae'r gwendid systemig hwn yn cyfyngu ar gapasiti'r ysgol ar gyfer cynllunio strategol, ac yn cyfrannu at orddibyniaeth ar staff asiantaeth er gwaethaf ymdrechion gorau arweinwyr i hyrwyddo sefydlogrwydd.

## Cymuned anogol, rymusol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu ffynnu

Mae Ysgol Heol Goffa yn gymuned gynhwysol a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, bod croeso iddynt a'u bod yn cael eu parchu. Mae staff yn dangos dealltwriaeth hynod gryf o anghenion disgyblion, ac yn darparu cymorth gwresog ac urddasol. Mae'r perthnasoedd cadarnhaol hyn yn sail i hyder, rheoleiddio emosiynol a pharodrwydd disgyblion i ymgysylltu â dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau cyfoethog y tu allan i'r ystafell ddosbarth, yn cynnwys prosiectau menter, profiadau preswyl ac ymweliadau diwylliannol. Mae'r cyfleoedd hyn yn ehangu gorwelion disgyblion ac yn eu galluogi i ddatblygu gwydnwch, annibyniaeth a rheoleiddio emosiynol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu dwys a lluosog yn elwa ar brofiadau addasedig ac ystyrlon.

Mae trefniadau diogelu yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu hamddiffyn. Mae staff yn deall eu cyfrifoldebau'n dda ac yn adrodd am bryderon yn briodol. Mae arweinwyr yn gweithio'n gadarnhaol gyda phartneriaid, yn cynnwys swyddog cyswllt yr heddlu ag ysgolion, i hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o aros yn ddiogel. Fodd bynnag, mae ychydig o bolisïau allweddol wedi dyddio ac nid ydynt yn adlewyrchu materion diogelu pwysig fel radicaleiddio.

Mae tîm lles dynodedig yn darparu cymorth therapiwtig a synhwyraidd gwerthfawr. Mae disgyblion yn elwa ar sesiynau datblygiad emosiynol strwythuredig ac ymyriadau'n canolbwyntio ar gyfathrebu. Mae arferion dyddiol a rhaglenni rheoleiddio synhwyraidd yn cyfrannu at amgylchedd tawel ac anogol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos ymddygiad hynod gadarnhaol ac mae llawer ohonynt yn gwneud gwelliannau cryf mewn hunanreoleiddio a chyfathrebu dros gyfnod.

Mae staff yn gwneud addasiadau pwrpasol i ddiwallu anghenion synhwyraidd ac anghenion bwydo disgyblion. Maent yn gwahanu eitemau bwyd i leihau anesmwythder synhwyraidd ac yn cymysgu prydau'n briodol ar gyfer disgyblion sydd angen dietau bwyd meddal neu rai sy'n cael eu bwydo trwy diwb PEG. Gyda chymorth sensitif, caiff disgyblion eu hannog i archwilio a blasu bwydydd newydd gyda blasau, arogleuon a gweadau gwahanol, sy'n helpu ehangu eu profiadau dietegol dros gyfnod.

## Diffyg nyrs ar y safle yn cyfyngu ar gymorth meddygol cyson ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth

Mae diffyg nyrs ysgol ddynodedig yn cyfyngu ar y cymorth iechyd parhaus sydd ar gael i ddisgyblion ag anghenion meddygol cymhleth. Heb y rôl glinigol hon ar y safle, mae staff yr ysgol yn rheoli ystod eang o gyfrifoldebau gofal iechyd ac yn dibynnu ar weithwyr

proffesiynol allanol am ddiweddariadau. Mae hyn yn golygu bod goruchwylio anghenion meddygol disgyblion o ddydd i ddydd ac addasiadau rheolaidd i gynlluniau gofal yn ddibynnol ar argaeledd gwasanaethau iechyd allanol. O ganlyniad, nid yw disgyblion a theuluoedd yn gallu elwa ar gydlynu iechyd ar y safle yn barhaus, sydd ar gael yn nodweddiadol mewn lleoliadau arbenigol tebyg.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn amlygu bod nyrsys ysgol yn chwarae rôl bwysig mewn cydlynu gofal, diweddaru cynlluniau gofal iechyd a gweithredu fel cyswllt rhwng ysgolion, teuluoedd a gwasanaethau'r GIG. Mewn lleoliadau arbenigol ledled Cymru, mae nyrsys ysgol yn cyfrannu at fonitro rheolaidd ac yn helpu sicrhau bod cynlluniau gofal iechyd disgyblion yn adlewyrchu eu hanghenion presennol.

### Addysgu pwrpasol a strwythuredig sy'n galluogi disgyblion i ddysgu, cyfathrebu a magu hyder

Ar draws dosbarthiadau, mae'r addysgu yn bwyllog, yn bwrpasol ac yn strwythuredig, ar y cyfan. Mae arferion rhagweladwy fel gweithgareddau cofrestru sy'n ymgorffori caneuon, arwyddion a chiwiau gweledol, yn cefnogi parodrwydd disgyblion i ddysgu. Mae staff yn arddangos perthnasoedd proffesiynol cryf â disgyblion a dealltwriaeth gadarn o'u hanghenion, eu diddordebau a'u hoff ddulliau cyfathrebu.

Mae'r cynllunio yn glir yn nodweddiadol, gyda gweithgareddau perthnasol ac iddynt ddilyniant da. Mae athrawon yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu, yn cynnwys archwilio synhwyraidd, dysgu yn yr awyr agored, gwaith grŵp a thasgau creadigol. Mae'r dulliau amrywiol hyn yn cynnal ymgysylltiad a chymorth i atgyfnerthu cysyniadau allweddol. Mae gweithgareddau'n cyd-fynd yn agos â chamau datblygiadol disgyblion, ac mae dulliau amlsynhwyraidd yn hynod effeithiol mewn sesiynau synhwyraidd sy'n canolbwyntio ar gyfathrebu.

Pan mae'r addysgu ar ei gryfaf, mae staff yn modelu iaith yn fedrus gan ddefnyddio dull cyfathrebu cyflawn. Mae athrawon yn holi disgyblion yn effeithiol i brocio dealltwriaeth, eu cynorthwyo i gymryd eu tro, ac annog annibyniaeth. Mae amgylcheddau ystafell ddosbarth trefnus yn uchafu cyfleoedd disgyblion i gymryd rhan a gwneud dewisiadau, gan ddatblygu eu hymreolaeth.

Mewn ychydig iawn o achosion, mae cyflymdra'r gwersi'n llai effeithiol, sy'n arwain at gyfnodau aros neu lai o her. Mewn rhai lleoliadau, mae acwsteg ystafell ddosbarth yn rhwystro sylw, ac mae fformatau dosbarth cyfan yn lleihau cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio targedig.

Mae cynorthwywyr addysgu'n chwarae rôl hanfodol o ran cefnogi dysgu. Bron ym mhob dosbarth, maent yn darparu cymorth sensitif, wedi'i chyfeirio'n dda sy'n helpu disgyblion i lwyddo. Mewn ychydig iawn o achosion, mae cymorth yn fwy goddefgar ac yn llai effeithiol.

Mae arferion asesu yn brydlon ac yn ystyrlon, ar y cyfan, ac yn dathlu'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn dda iawn. Mae staff yn darparu adborth di-oed ar lafar ac yn addasu cwestiynau'n fedrus i ddulliau cyfathrebu disgyblion. Mae asesu parhaus yn amlwg trwy alw dysgu i gof a chysylltu dysgu â dealltwriaeth flaenorol. Mae athrawon yn addasu tasgau ac esboniadau yn briodol ar ôl arsylwi parhaus.

Mae'r ysgol wedi treialu sawl offeryn asesu a dull addysgu, gan ddewis y rhai sydd fwyaf priodol ar gyfer disgyblion. Mae'r offer hwn yn cael ei ymgorffori'n gynyddol dda ac yn helpu safoni arfer ar draws sectorau.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn uchelgeisiol ac yn cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Mae disgyblion yn elwa ar ddysgu sydd wedi'i wreiddio mewn cyfathrebu, lles, annibyniaeth a chyd-destunau byd go iawn dilys. Mae staff yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant medrau, ac mae dysgu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth yn gryfder arbennig sy'n ymestyn annibyniaeth a medrau bywyd disgyblion.

### Ciplun: Disgyblion sy'n arwain, yn cysylltu ac yn cyfrannu'r tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Mae llais y disgybl yn gryfder sylweddol yn yr ysgol, ac mae disgyblion yn cymryd rolau gweithredol mewn gwneud penderfyniadau trwy bwyllgorau sefydledig a chyfleoedd arwain. Maent yn dylanwadu ar y cwricwlwm, yn ffurfio amgylchedd yr ysgol ac yn cyfrannu at benodiadau staff, yn ogystal â chynrychioli'r ysgol yn hyderus mewn fforymau lleol a chenedlaethol. Trwy rolau fel y cyngor ysgol, llysgenhadon chwaraeon, y pwyllgor eco a'r Criw Cymraeg, mae disgyblion yn casglu a chyflwyno safbwyntiau eu cyfoedion, gan ddatblygu medrau cryf o ran cyfathrebu, arwain, gwaith tîm a dinasyddiaeth.

Caiff y profiadau arwain hyn eu hategu gan gysylltiadau dwfn yr ysgol â'i chymuned. Mae prosiectau pontio'r cenedlaethau, partneriaethau ag elusennau lleol ac ymweliadau rheolaidd â chartrefi preswyl yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion ac yn cryfhau eu hymdeimlad o berthyn. Mae gweithgareddau fel *Canu a Gwenu* (*Sing and Smile)*, adrodd storïau yn y gymuned, digwyddiadau dwyieithog a sesiynau darllen yn helpu magu hyder, empathi a hunaniaeth ddiwylliannol disgyblion tra'n atgyfnerthu llythrennedd a lles. Gyda'i gilydd, mae'r cyfleoedd hyn yn galluogi disgyblion i ddylanwadu ar eu hysgol a chyfrannu'n ystyrlon at eu cymuned ehangach.

## Dilyniant medrau eang ac ystyrlon sy'n trawsnewid ymgysylltiad disgyblion

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyson a phwrpasol ar draws ystod eang o fedrau, sy'n briodol i'w hanghenion unigol. Maent yn datblygu medrau darllen, ysgrifennu a chyfathrebu cynnar yn dda, ac mae llawer ohonynt yn dod yn ddarllenwyr a chyfathrebwyr cynyddol hyderus sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau yn effeithiol. Mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn cyd-destunau ystyrlon a bywyd go iawn, fel creu posteri, dehongli data syml, defnyddio cyfrifiaduron llechen i wneud dewisiadau a chyfrannu at brosiectau amlgyfrwng.

Cefnogir eu datblygiad corfforol trwy raglen gyfoethog o weithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle sy'n helpu magu hyder, gwydnwch a hyder disgyblion. Mae medrau cymdeithasol yn gryfder sylweddol, ac mae disgyblion yn rhyngweithio'n gadarnhaol, yn cydweithio'n dda ac yn cyfathrebu'n hyderus â chyfoedion ac oedolion. Mae medrau creadigol yn ffynnu hefyd, ac mae disgyblion yn mynegi eu hunain trwy gelf, cerddoriaeth a pherfformio, ynghyd â defnydd cynyddol o ddulliau amlgyfrwng i arddangos a datblygu eu syniadau, fel fideos disgyblion ar "how to wash your hands", "game of Goffa" a "Dennis the school dog's visit to London" Ysgol Heol Goffa - YouTube

### Ciplun: Profiadau byd go iawn a chorfforol sy'n magu annibyniaeth, hyder a gwydnwch

Un cryfder arbennig yw'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth a darparu profiadau bywyd go iawn sy'n cefnogi datblygiad medrau bywyd allweddol i ddisgyblion.

Darperir ystod eang o weithgareddau corfforol i ddisgyblion ar y safle ac oddi ar y safle, yn cynnwys defnydd therapiwtig o'r trampolîn, seiclo, cerdded, pêl-droed, boccia a chanŵio. O ganlyniad, mae medrau corfforol disgyblion yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion hŷn yn dangos medrau corfforol effeithiol iawn, yn ogystal â dangos gwydnwch a dewrder yn ystod gweithgareddau Dug Caeredin ar lefelau efydd, arian ac aur, er enghraifft. Hefyd, mae disgyblion yn adeiladu ar y medrau corfforol hyn trwy ystod o brofiadau cwricwlwm hynod werthfawr ac eang, er enghraifft trwy dripiau sgïo yn lleol a thramor. Mewn ychydig iawn o achosion, mae disgyblion yn arddangos y medrau hyn trwy gynrychioli Cymru yn y Gemau Olympaidd arbennig.

Mae disgyblion hefyd yn meithrin medrau bywyd gwerthfawr, gan ddatblygu annibyniaeth trwy dasgau cartref, ymweliadau cymunedol a phrofiadau dysgu achrededig. At ei gilydd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da ar draws meysydd medrau allweddol ac yn ymgysylltu'n hyderus mewn cwricwlwm eang a chyfoethog.

Mae arweinwyr yn ymgymryd â gweithgareddau monitro helaeth i adolygu darpariaeth a phrofiadau disgyblion. Maent yn dadansoddi tystiolaeth yn systematig i nodi cryfderau a llywio blaenoriaethau gwella. Er bod y monitro'n drylwyr, nid yw bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar y cynnydd a wna disgyblion dros gyfnod. Mae hyn yn cyfyngu ar fanwl gywirdeb y gwerthuso. Serch hynny, mae arweinwyr yn nodi blaenoriaethau clir sy'n cyd-fynd yn briodol â'u canfyddiadau.

Mae arweinwyr canol yn datblygu hyder ac yn chwarae rôl gynyddol mewn ffurfio darpariaeth ar draws meysydd dysgu. Mae'r ysgol yn hyrwyddo diwylliant dysgu proffesiynol cryf, ac mae staff yn ymgysylltu â rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r cyfleoedd hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar addysgeg a chynnydd disgyblion, yn enwedig mewn darllen cynnar, ymgysylltu synhwyraidd a chyfathrebu.

### Diffygion mewn adeiladau yn cyfyngu ar fynediad, annibyniaeth a chynnydd disgyblion

Mae'r cynnydd ym mhoblogaeth y disgyblion wedi rhoi pwysau cynyddol ar adeiladau'r ysgol, nad ydynt yn addas at eu diben mewn sawl maes allweddol mwyach. Mae llawer o ystafelloedd dosbarth yn rhy fach ac yn cyfyngu ar symudiadau disgyblion, gan gyfyngu mynediad i ddysgu, yn enwedig ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn. Mae mynediad i floc y disgyblion hŷn yn anaddas ar gyfer rhai disgyblion, a rhaid iddynt adael perimedr yr ysgol i fynd i mewn eto, sy'n lleihau amser dysgu ac yn tanseilio cynhwysiant.

Mae cyfleusterau sydd wedi'u bwriadu i gefnogi byw yn annibynnol wedi dyddio ac yn cynnwys offer gwael, gan gynnig cyfleoedd cyfyngedig i ddisgyblion ddatblygu medrau bywyd hanfodol. Yn ychwanegol, mae'r ffaith nad oes mannau adlam a hydrotherapi dynodedig yn cyfyngu ar fynediad i ddarpariaeth therapiwtig bwysig. Gyda'i gilydd, mae'r diffygion hyn yn cael effaith negyddol ar les ac annibyniaeth disgyblion, a'r cwricwlwm.

## Gwybodaeth ychwanegol

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/01/2026